GS Artists invites you to be part of a very special 9to90 Creative Community Art School

From November 22nd- December 18th 2021, our gallery will become one big art studio, hosting classes in portraiture in a wide range of materials and methods. After each workshop we will add the artworks produced, filling our walls for the annual 9to90 Creative Community open submission exhibition and competition. Details of the workshops will be announced soon via Eventbrite and on our Website, Facebook and Instagram

The main exhibition will remain online this year, but we are launching not one, but two special 'Paint a Portrait ' Categories….

And we are absolutely delighted to announce that the one and only Catherine Zeta Jones has agreed to be this year's STAR portrait and will be bringing a touch of Hollywood glamour to the High Street. All entries will be judged by Catherine and her family.

Mae GS Artists yn eich gwahodd i fod yn rhan o Ysgol Gelf Cymuned Greadigol 9i90 arbennig iawn

Rhwng 22 Tachwedd ac 18 Rhagfyr 2021, bydd ein horiel yn dod yn un stiwdio gelf fawr, gan gynnal dosbarthiadau mewn creu portreadau mewn ystod eang o ddeunyddiau a dulliau. Ar ôl pob gweithdy, byddwn yn ychwanegu'r gweithiau celf a gynhyrchir at y waliau, gan eu llenwi ar gyfer ein harddangosfa a chystadleuaeth cyflwyno agored Cymuned Greadigol 9i90 flynyddol. Cyhoeddir manylion am y gweithdai'n fuan trwy Eventbrite ac ar ein Gwefan, Facebook ac Instagram.

Bydd y brif arddangosfa'n aros ar-lein eleni, ond rydym yn lansio nid un, ond dau gategori 'Paentio Portread ' arbennig…

Ac rydym wrth ein bodd o gyhoeddi mai'r actores unigryw Catherine Zeta Jones fydd testun portread y categori SEREN, gan ddod ag elfen o gyfaredd Hollywood i'r Stryd Fawr. Caiff pob cais ei feirniadu gan Catherine a'i theulu.

In addition we have a very special "Paint a Portrait of your Pet Cat-e-gory" an opportunity to immortalise your favourite pets that have kept you company over these difficult months. It might be a pawtrait of your top pooch, or other pet complete with scales, fur or other…..

Yn ogystal, mae gennym gategori **'Paentio Portread o'ch Anifail Anwes'** arbennig iawn, sy'n gyfle i anfarwoli'ch hoff anifeiliaid anwes sydd wedi cadw cwmni ichi dros y misoedd anodd hyn. Gall fod yn bortread o'ch annwyl gi neu anifail anwes blewog/cennog arall…

GS Artists

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Crisis
Together we will end homelessness



COMPETITION DETAILS -

THIS COMPETITION IS OPEN TO ENTRIES FROM ALL OVER THE UK- and you are welcome to enter both categories.

ALL the works entered will be displayed on our online gallery.

Entry is via email until 5pm on December 11th, just email the best jpg possible of your artwork with your name and age group; 13 & under, 18 & under, or Adult. There will be 2 prizes for each age group.

EXHIBITION DETAILS

You are very welcome to bring your works to the gallery, at 217 High Street, Swansea SA1 1PE, on Saturday 11th December, 11-4pm, for a ***Hang and Hangout day-***

We will be on hand to add your entry to the walls, and the exhibition will be on display till December 18th.

We can also take photos and enter your works into the competition on your behalf. Any questions please email us at 9to90creativecommunity@gmail.com

MANYLION Y GYSTADLEUAETH – Does dim ffi i gystadlu yn y gystadleuaeth hon a derbynnir ceisiadau o bob rhan o'r DU. Caiff POB darn o waith a gyflwynir ei arddangos ar ein horiel ar-lein.

Rhaid cystadlu trwy ebost cyn 5pm ar 11 Rhagfyr. Anfonwch y jpg gorau posibl o'ch gwaith celf atom, gan nodi'ch enw a'ch grŵp oedran – 13 ac iau, 18 ac iau neu Oedolyn. Bydd dwy wobr ar gyfer pob grŵp oedran.

MANYLION YR ARDDANGOSFA – Mae croeso i chi sy'n byw yn lleol ddod â'ch gweithiau i'r oriel yn 217 Y Stryd Fawr, Abertawe SA11PE, ddydd Sadwrn 11 Rhagfyr rhwng 11 a 4pm ar gyfer **'Diwrnod hongian a hongian ambythtu'**.

Byddwn wrth law i ychwanegu'ch gwaith at y waliau, a bydd yr arddangosfa ar gael i'w gweld tan 18 Rhagfyr. Gallwn dynnu llun o'ch gwaith a'i osod yn y gystadleuaeth ar eich rhan hefyd. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, anfonwch ebost at **9to90creativecommunity@gmail.com**

Jane Simpson, founder of GS Artists says - "We are delighted to be working again with Crisis and other local support agencies, on a project that really has community at the heart of it, and that Catherine has agreed to be this years STAR is just the icing on the cake. Portraits are a fantastic challenge for all, especially if the subject is admired as much as Catherine, the affection for her is clear, as with our pets who have been of such a great comfort to us over the last months, Previous subjects were Michael Sheen, and Sir Peter Blake and Rob Brydon, immortalised in fabric, cardboard, metal, oil paint, photography, pencil, collage and beetroot- The results have been amazing, and we are really looking forward to this years contributions.

We would like to say a big thankyou to those that have shown such enthusiasm and support to get to this stage already!

Dywed Jane Simpson, sylfaenydd GS Artists – *'Rydym yn gyffrous o weithio unwaith eto gyda Crisis ac asiantaethau cymorth lleol eraill ar brosiect sydd â'r gymuned yn ganolog iddo. Mae'r ffaith fod Catherine wedi cytuno i fod yn SEREN eleni yn goron ar y cwbl. Mae portreadau'n her wych i bawb, yn enwedig os yw'r pwnc yn cael ei edmygu cymaint â Catherine. Mae'r hoffter ohoni'n glir, fel y mae ein hoffter o'n hanifeiliaid anwes sydd wedi rhoi cymaint o gysur inni dros y misoedd diwethaf. Michael Sheen, Syr Peter Blake a Rob Brydon oedd ein pynciau blaenorol, gyda phob un wedi ei anfarwoli mewn ffabrig, cardfwrdd, metel, paent olew, ffotograffiaeth, pensil, collage a betys. Mae'r canlyniadau wedi bod yn anhygoel, ac rydym yn edrych ymlaen yn fawr at gyfraniadau eleni. Hoffem ddiolch yn fawr i'r rhai sydd wedi dangos cymaint o frwdfrydedd a chefnogaeth i'n galluogi i gyrraedd y fan hon yn barod. Rydym yn falch iawn o gyhoeddi hefyd y dyfarnwyd grant 'Creu' Cyngor Celfyddydau Cymru i GS Artists, a fydd yn cyfrannu tuag at 18 mis nesaf ein horiel a'n rhaglen ymgysylltu â'r gymuned, ac rydym yn hynod ddiolchgar i gael cefnogaeth o'r fath'.*